Page

# Lansio Trefi a Dinasoedd Natur gyda buddsoddiad o £15miliwn

18/07/2025

Image not found or type unknown
The view from Hall Ings to Norfolk Gardens.
Bradford's project will connect communities across the city and nearby towns with nature. Credit: SWECO.

Rydym yn cefnogi 40 o drefi a dinasoedd ar draws y DU i wella a chreu mannau gwyrdd, strydoedd a chymdogaethau hygyrch.

Dylai fod gan bawb fynediad at barciau cyhoeddus a mannau gwyrdd yn eu bywydau bob dydd. Drwy ein menter Trefi a Dinasoedd Natur, rydym wedi dyfarnu grantiau i 19 o brosiectau partneriaeth – o Bradford i Belfast – i ddod â phobl yn agosach at natur drefol.

Mae Trefi a Dinasoedd Natur yn fenter bartneriaeth sydd â'r nod o helpu awdurdodau lleol a phartneriaid cymunedol i roi treftadaeth naturiol wrth wraidd eu cynlluniau trwy ariannu, achrediad ac adnoddau eraill.

Rydym hefyd yn dathlu Birmingham fel Dinas Natur achrededig gyntaf y DU a'i hymrwymiad mai hawl yw natur, nid braint, a Bournemouth, Christchurch a Poole fel y Dref Natur gyntaf wrth iddynt weithio gyda phartneriaid i ddod â natur i galon cymunedau.

> “Bydd y fenter gyffrous hon, sy’n gweithio gyda phartneriaid ar draws y DU, yn rhoi gwell mynediad i fyd natur i filiynau o bobl yn agos at eu cartrefi.”
>
> *Eilish McGuinness, Prif Weithredwr, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

## Mynnwch gip ar y prosiectau a ariannwyd

Bydd ein grantiau gwerth £15miliwn yn cefnogi 40 o drefi a dinasoedd – drwy 19 o brosiectau partneriaeth – i ddod yn lleoedd mwy gwyrdd a hapus i bobl fyw a gweithio ynddynt.

Mae Bradford wedi derbyn £848,503 i ddatblygu strategaethau seilwaith gwyrdd a glas a gweithio gyda phartneriaid i gysylltu cymunedau â byd natur ar draws Dinas Diwylliant y DU 2025.

Yn Belfast, rydym wedi dyfarnu £850,514 i gyd-ddylunio cynllun ar gyfer adferiad byd natur ar draws y ddinas a'r ardaloedd cyfagos, gan gynnwys Parc Rhanbarthol amhrisiadwy Dyffryn Lagan a Bryniau Belfast.

Image not found or type unknown
A person is cycling through the park with a dog in the front.
Mae pedair tref yn ardal Fife, gan gynnwys Dunfermline a Kirkcaldy, yn elwa o'r dyfarniad.
Credyd: Richard Newton.

Mae prosiectau eraill rydym wedi’u hariannu’n cynnwys:

- **Fife, Yr Alban:** £800,000 i drawsnewid mannau gwyrdd trefol i wella'u cydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd, rhoi hwb i dwristiaeth, cyfoethogi diwylliant lleol a gwella iechyd a lles cymunedau.
- **Castell-nedd Port Talbot, Cymru:** £339,471 ar gyfer un o'n Lleoedd Treftadaeth, i newid sut mae cymunedau'n rhyngweithio â byd natur yn eu bywydau a chreu mannau gwyrdd sy'n cefnogi lles ac yn

helpu bioamrywiaeth i ffynnu.
- **Coventry, Lloegr**: £989,685 i fynd i'r afael ag amddifadedd gwyrdd ar draws y ddinas drwy newid sut mae'n rheoli ac yn monitro mannau gwyrdd a glas, ochr yn ochr â rhaglen allgymorth gymunedol.

Bydd y prosiectau'n cael eu cefnogi gan rwydwaith o arbenigwyr o'n sefydliadau partner, a fydd yn darparu cyngor am ddim ar bynciau fel cynllunio seilwaith gwyrdd, cyllid gwyrdd ac ennyn diddordeb cymunedau. Gweler y rhestr lawn o brosiectau rydym wedi'u hariannu.

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Rydym wedi buddsoddi dros £1biliwn mewn adfywio dros 900 o barciau trefol a mannau gwyrdd dros y 30 mlynedd diwethaf, gan helpu byd natur i ffynnu mewn trefi ar hyd a lled y wlad. Bydd y fenter gyffrous hon, sy'n gweithio gyda phartneriaid ym mhob cwr o'r DU, yn adeiladu ar y buddsoddiad hwn ac yn rhoi mynediad gwell i natur i filiynau o bobl yn agos at eu cartrefi.”

## Gweithio ar y cyd dros fyd natur

Mae Trefi a Dinasoedd Natur yn bartneriaeth 10 mlynedd rhyngom ni, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Natural England, gan gydweithio’n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon.

Ewch i wefan Trefi a Dinasoedd Natur i ddarganfod llyfrgell o adnoddau a all helpu awdurdodau lleol, partneriaid a sefydliadau cymunedol i wella mannau gwyrdd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn Dref neu Ddinas Natur, mae yna digwyddiadau rhithwir ar y gweill i'ch cefnogi gydag achrediad. Bydd y wefan yn parhau i gael ei diweddaru fel hyb dysgu, a bydd astudiaethau achos a newyddion yn cael eu rhannu arni.

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

Image not found or type unknown
School children visit the greenhouses at Birmingham Botanic Garden
School children visit the Birmingham Botanical Garden glasshouses. Credit: Irina Mackie.

### Dyfarnu £20 miliwn i chwe phrosiect sy'n cysylltu pobl â threftadaeth naturiol

Image not found or type unknown
Pobl yn eistedd ar gadeiriau gwersylla ac ar y glaswellt ym mharc Pearson o flaen bandstand hanesyddol
Parc Pearson yn Kingston upon Hull.

### £15miliwn i helpu i roi natur wrth wraidd ein trefi a’n dinasoedd

Image not found or type unknown
A group of Trees for Cities volunteers pose for the camera during a tree-planting session
Volunteers planting trees. Photo: Saoirse Clohessy.

### Growing community connections with natural heritage